Casgliadau data Llywodraeth Cymru: sefyllfa bresennol cynlluniau mewn ymateb i COVID-19

Casgliad data	Pa mor aml y cesglir y data	Cynnig ym mis Mai 2020	Rhagfyr 2020
Arolwg Cenedlaethol Cymru	Parhaus	Wedi symud i arolwg ffôn yn unol â newidiadau i arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol, llai o gynnwys yn sgil y sefyllfa bresennol.	Newidiadau i fformat yr arolwg yn parhau.
Arolwg Defnydd Iaith	Ad-hoc	Arolwg wedi'i atal, oherwydd y newid yn y ffordd y gweinyddir yr Arolwg Cenedlaethol. Mae'r 9 mis cyntaf o ddata wedi cael eu casglu a byddant yn cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi.	-
Arolwg Masnach Cymru	Blynyddol	Yn cael ei ystyried.	Contractiwr yn barod i wneud y gwaith maes rhwng mis Hydref - Rhagfyr 2020. Bydd yr arolwg yn parhau i fod ar-lein ond gyda galwad ffôn ar ôl anfon y llythyr gwahodd i gadarnhau bod y llythyr wedi'i dderbyn.
Cyfrifiad Ysgolion a Chyfrifiad Gweithlu Ysgolion	Blynyddol	Wedi casglu'r rhan fwyaf o'r data ar gyfer 2019/20, nifer bach o ysgolion heb ddarparu'r data a rhai'n annilys. Ni fydd gwybodaeth gan ysgolion coll ar gyfer y Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion yn cael ei chasglu ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol.	-
Casgliadau presenoldeb yn yr ysgol, asesiadau athrawon a Phrofion Cenedlaethol Cymru	Blynyddol	Wedi'u canslo. Ni fydd data ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ar gael o'r casgliadau hyn.	-
Canlyniadau TGAU ac Safon Uwch/UG	Blynyddol	Trafodaethau'n parhau.	Bydd data arholiadau'n cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol, ar lefel genedlaethol, ac ni fyddant yn cynnwys mesurau perfformiad.
Absenoldebau Athrawon Drwy Salwch	Blynyddol	Atal y casgliad a'r cyhoeddiad presennol dros dro. Adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Rydym yn bwriadu casglu data ar gyfer y flwyddyn galendr 2019 a 2020 ym mis Ionawr 2021 a'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021.
Derbyn cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl (KP90)	Blynyddol	Casgliad data ar gyfer 2018-19 yn parhau, 2019-20 wedi'i ohirio tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Data 2018-19 wedi'u cyhoeddi. Yn gweithio ar amserlen ar gyfer casglu data 2019-20 ar hyn o bryd.
Digartrefedd	Chwarterol (y prif ffigurau)	Cynnig cadw at yr amserlen datganiadau chwarterol pan fo hynny'n bosibl.	Casglu'r dadansoddiad chwarterol ar gyfer 2020-21 ar ôl Mawrth 2021 ac ochr yn ochr â'r casgliad blynyddol ar gyfer data 2020-21. Byddai'r ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2021.
	Blynyddol (mwy cynhwysfawr)	Lleihau'r casgliad blynyddol mwy cynhwysfawr.	Gwelwyd oedi wrth sicrhau ansawdd y data blynyddol eleni. Gohiriwyd y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf, gan gyhoeddi ym mis Tachwedd yn lle hynny.

Casgliad data	Pa mor aml y cesglir y data	Cynnig ym mis Mai 2020	Rhagfyr 2020
Adeiladu tai newydd	Chwarterol	Peidio â chasglu na chyhoeddi data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 ac atal casglu a chyhoeddi data tan ddiwedd 2020-21. Mae'n debygol y byddwn yn casglu data ar gyfer y flwyddyn gyfan yn unig ar ddiwedd 2020-21.	-
Tai Fforddiadwy	Blynyddol	Gohirio casglu data tan yr hydref.	Dechrau casglu data ym mis Hydref.
Stoc Tai Cymdeithasol a Rhenti	Blynyddol	Peidio â chasglu na chyhoeddi data ar gyfer 2019-20. [Dim camau pellach]	-
Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 dros dro. Adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn a phenderfynu a ddylid casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfnod cyfeirio gwahanol.	Casglu a chyhoeddi ar gyfer 2019-20 wedi'u canslo. Yn hanner cyntaf 2021, byddwn yn casglu data fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020.
Gwerthiannau Tai Cymdeithasol	Blynyddol	Peidio â chasglu na chyhoeddi data ar gyfer 2019-20. [Dim camau pellach]	-
Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Ansoddol a Meintiol	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi ar gyfer 2019-20 wedi'u canslo. Wedi dod i ben.
Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)	Blynyddol	Oedi ychydig cyn casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Dechrau casglu data ym mis Medi gyda'r nod o'u cyhoeddi cyn y Nadolig. Dyddiad terfynol i'w gadarnhau.
Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCS)	Blynyddol	Oedi casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Dechrau casglu data ym mis Hydref a chyhoeddi ar ddechrau 2021 (yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol)
Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (cyfanredol)	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo.
Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo.
Diogelu Oedolion	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo.
Staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo. Wedi dod i ben (cyfrifoldeb wedi'i drosglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru)
Cofrestrau anabledd	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo.
Dechrau'n Deg	Bob tymor	Atal y casglu a'r cyhoeddi tan yn hwyrach yn y flwyddyn, adolygu'r amseru yng nghyd-destun anghenion monitro parhaus.	Casglu data yn yr hydref.
Ystadegau Gweithredol y Gwasanaeth Tân	Blynyddol	Atal casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 dros dro. Adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 yn yr hydref.
Cwnsela ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Ysgolion)	Blynyddol	Adolygu casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Dechrau casglu data ym mis Hydref.
Gwaith Ieuenctid	Blynyddol	Adolygu casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Dechrau casglu data ym mis Hydref.

Casgliad data	Pa mor aml y cesglir y data	Cynnig ym mis Mai 2020	Rhagfyr 2020
Cyfrif Carafanau Sipsiwn a Theithwyr	Dwywaith y flwyddyn (mis Ionawr a mis Mehefin)	Ystyried gyda darparwyr data.	Ystyried gyda darparwyr data.
Cyllideb Refeniw Cyllid Llywodraeth Leol, Rhagolwg Cyfalaf a Chyllidebau Ysgol	Blynyddol	Cynnig cadw at yr amserlen os yw hynny'n bosibl.	Ffurflenni wedi'u hanfon fel arfer. Data'n dod i law. Cyhoeddi wedi'i ohirio.
Casglu'r Dreth Gyngor	Blynyddol	Oedi ychydig.	Ffurflenni wedi'u hanfon yn hwyrach nag arfer. Data'n dod i law. Cyhoeddi wedi'i ohirio.
Hyd ffyrdd	Blynyddol	Oedi ac adolygu yn hwyrach yn y flwyddyn.	Casglu a chyhoeddi data ar gyfer 2019-20 wedi'i ganslo.
Damweiniau ffyrdd	Misol	Heddluoedd yn parhau i ddarparu gwybodaeth os ydynt yn gallu.	Gwybodaeth yn dal i gael ei darparu.
Arolwg Amaethyddiaeth Mehefin	Blynyddol	Yn cael ei ystyried.	Arolwg wedi'i ohirio tan ganol mis Awst a maint y sampl a faint o wybodaeth y gofynnir amdani wedi'u lleihau.
Arolwg incwm ffermydd	Blynyddol	Yn bwrw ymlaen ond gwaith maes wedi'i atal ar hyn o bryd.	Yn gwneud ychydig o gynnydd heb ymweliadau fferm.
Alldro Refeniw Cyllid Llywodraeth Leol, Alldro Cyfalaf ac Alldro Ysgolion	Blynyddol	Cynnig cadw at yr amserlen os yw hynny'n bosibl.	Ffurflenni wedi'u hanfon allan yn unol â'r amserlen.
Dymchweliadau, Peryglon a Thrwyddedau 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Cymorth ar gyfer Gwelliannau Tai 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Gweithgarwch Ardal Adnewyddu 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Tai gwag 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Eiddo ar osod 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Ôl-ddyledion rhent 2019-20	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	Peidio â chasglu na chyhoeddi ar gyfer 2019-20
Cyfrif cysgu allan	Blynyddol	Heb ei ystyried gan nad yw'n digwydd tan ddiwedd y flwyddyn.	I leddfu'r baich ar awdurdodau lleol a gan ein bod wedi dechrau cyhoeddi gwybodaeth reoli yn fisol ar ddigartrefedd a chysgu allan, mae'r cyfrifiad cysgu allan blynyddol ar gyfer mis Tachwedd 2020 wedi'i ohirio. Adroddiad ar y penderfyniad.

Casgliad data	Pa mor aml y cesglir y data	Cynnig ym mis Mai 2020	Rhagfyr 2020
Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr	Parhaus	-	Ni fydd data ar gael ar gyfer 2020. Bydd tuedd newydd yn dechrau yn 2021.
Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr	Parhaus	-	Ni fydd data ar gael ar gyfer 2020. Bydd tuedd newydd yn dechrau yn 2021.

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Rhagfyr 2020